

# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWDDEDU

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A  
MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau yn Bresennol:**

**Dydd Llun, 6 Mawrth 2023**

**Cadeirydd:** **Cynghorydd A.J.Richards**

**Is-gadeirydd:** **Cynghorydd J.Henton**

**Cynghorwyr:** S.Paddison, D.Whitelock, M.Crowley, A.Dacey,  
H.Davies, K.Morris, S.Renkes, S.Thomas a/ac  
L.Williams

**Swyddogion yn  
bresebbol:** Neil Chapple  
Gavin White  
Sarah McCluskie

## 1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 4. **ADRODDIAD PENDERFYNIAD POLISI TRWDDEDU TACSIS DIWYGIEDIG - CERBYDAU TRYDAN**

Rhoddwyd trosolwg o'r adroddiad i'r Aelodau.

### **Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, bod yr Aelodau yn cymeradwyo diwygiad i'r Polisi Trwyddedu Tacsis fel a ganlyn.

1. Atodiad E Manyleb 8 - i ddarllen - "bydd cerbydau nad ydynt yn caniatáu mynediad i gadeiriau olwyn ond yn cael eu hystyried ar gyfer trwyddedu fel dewis amgen ar gyfer cerbyd presennol nad yw'n caniatáu mynediad i

gadeiriau olwyn, ac eithrio cerbydau cwbl drydanol h.y. cerbydau sy'n cael eu pweru'n llwyr gan fatri ac nid oes ganddynt fotor tanio mewnol.

2. Atodiad E Manyleb 10 - i ddarllen "caiff trwyddedau cerbyd newydd eu rhoi ar gyfer cerbydau sy'n caniatáu mynediad i gadeiriau olwyn a cherbydau cwbl drydanol yn unig, h.y. cerbydau sy'n cael eu pweru'n llwyr gan fatri ac nid oes ganddynt fotor tanio mewnol.

## 5. **EITEMAU BRYD**

Roedd un eitem frys.

## 6. **TRWYDDED LLETYWR YN Y CARTREF NEWYDD HAPPY TAILS**

Cyflwynwyd yr adroddiad atodol i'r aelodau fel eitem frys.

### **Penderfyniad:**

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunodd yr Aelodau i **GYMERADWYO'R** cais, ar y sail bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio'n llawn â'r amodau a nodwyd yn y Rheoliadau Saesneg presennol, amod 16.3 sy'n nodi 'os oes unrhyw berson dan 16 oed yn byw yn y cartref, rhaid bod gweithdrefnau ar waith i reoleiddio'r hyn sy'n digwydd rhwng y cŵn a'r person hwnnw.' Rhaid i'r ymgeisydd hefyd lunio Asesiad Risg yn unol â'r amodau hyn.

## 7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

### **Penderfynwyd:**

Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 8. **TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ADRODDIAD PREIFAT**

Rhoddodd y Rheolwr Trwyddedu'r diweddaraf am yr adroddiad i'r Aelodau.

### **Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

## CADEIRYDD